


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Diweddariad Locwm

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y byddwn yn rhyddhau diweddariad i WNWRS cyn hir a fydd yn galluogi i ddata o Locum Hub Wales gael eu huwchlwytho'n awtomatig i WNWRS. Mae hyn yn golygu y bydd data locwm misol y mwyafrif o Bractisiau sy'n cael eu cofnodi yn Locum Hub Wales yn ymddangos yn awtomatig yn adran Defnydd o Locwm - Defnydd Hanesyddol (ochr chwith y ddewislen) o WNWRS ar ddechrau'r mis dilynol. A wnaiff Rheolwyr Practis barhau i gysoni eu data locwm yn Locum Hub Wales gan sicrhau bod Meddygon Teulu Locwm yn cofnodi eu sifftiau ar y wefan os cânt eu trefnu'n allanol. Ni fydd angen gwirio sifftiau sydd wedi'u harchebu'n uniongyrchol trwy Locum Hub Wales (GP Wales) gan y byddant yn cael eu cofnodi'n awtomatig. Dim ond Practisiau a Reolir gan Fwrdd Iechyd fydd yn gallu cael mynediad i'r Data Meddygon Locwm Anfynych yn WNWRS a dylent barhau i gofnodi'r gweithgarwch locwm hyn yn yr ardal hon yn fisol.



Ffocws ar: Partner (dim oriau)

Yn y modiwl Cofnodi Data, wrth nodi Cofnod Staff a dewis 'math o gontract', ceir dewis o 'Partner (dim oriau)'. **DIM OND** Partneriaid Meddygon Teulu nad ydynt yn gweithio'n rheolaidd yn eich Practis (a elwir yn 'bartneriaid segur') ddylai ddefnyddio'r opsiwn hwn. Dylai fod gan Bartneriaid Practisiau Meddygon Teulu statws contract 'contract dim oriau' a nodi eu horiau yn y blwch 'oriau gwaith'.

Rydym yn ystyried aralleirio'r opsiwn 'Partner (dim oriau)' rhag achosi dryswch. Beth hoffech ei alw? Anfonwch e-bost at nwssp.primarycareWNWRS@wales.nhs.uk gyda'ch syniadau.



Swyddi gwag - GP Wales

Yn dilyn ein presenoldeb yng nghynhadledd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn Lerpwl y mis diwethaf, siaradon ni gyda nifer o feddygon teulu oedd yn ystyried adleoli i Gymru ac a oedd yn chwilio am waith ym maes Gofal Sylfaenol. Tynnon ni sylw at y swyddi gwag ar wefan GP Wales ac felly byddem yn annog pob practis i nodi eu swyddi gwag ar GP Wales cyn gynted â phosibl. Mae GP Wales yn blatfform hysbysebu am ddim sy'n cysylltu'n uniongyrchol â NHS Jobs, gan sicrhau bod eich swydd wag yn cael y sylw mwyaf posibl ar gyfer y gronfa fwyaf o geiswyr gwaith sy'n dymuno gweithio yng Nghymru.

Yn ogystal, sicrhewch fod eich holl ddata swyddi gwag yn gyfredol ar WNWRS. Gallwch fewnbynnu a newid y swyddi gwag yn eich Practis ar WNWRS drwy'r opsiwn 'swyddi gwag' ar y bar tasgau ar y chwith. Cofnodwch pan fydd swyddi wedi'u llenwi hefyd.

Diweddariadau'r Gymraeg



Mae'n bleser gennym gyhoeddi lansio fersiwn Gymraeg o WNWRS y mis hwn.

Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr ledled y GIG hefyd i gefnogi'r gwaith o recriwtio meddygon teulu sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg i weithio mewn ardaloedd gyda chyfran uchel o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

O ystyried hyn, diweddarwch gymwyseddau Cymraeg eich tîm yn eu Cofnodion Staff fel y gallwn ddeall sgiliau Cymraeg Practisiau Meddygon Teulu. Diolch yn fawr

HO HO HO!

Nawr yw'r adeg berffaith i nodi'ch sifftiau ar Locum Hub Wales (GP Wales) yn barod at y Nadolig - nodwch nawr er mwyn trefnu eich gweithgarwch locwm yn barod at y gwyliau.

